PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 50 | Rhagfyr 12, 2024 | 50c.

## Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn, 6 Tachwedd



Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Eglwysi Annibynnol Môn, yr olaf am eleni, yn Ebeneser, Llanfairpwllgwyngyll. Y Parchg Geraint Tudur oedd yn cadeirio.

Yn dilyn croesawu'r ugain o gynrychiolwyr oedd wedi dod yno, cafwyd defosiwn dan arweiniad Mr Aled Griffiths. Canwyd emyn cyn i'r gynulleidfa gael ei hatgoffa o eiriau Iesu yn Luc 9:62, 'Nid yw'r sawl a osododd ei law ar yr aradr, ac sy'n edrych yn ôl, yn addas i deyrnas Dduw.' Darllenwyd wedyn o Salm 42 ac offrymwyd gweddi. Diolchwyd i Mrs Muriel Edwards am ei chymwynas wrth yr organ.

### Cofio gwas i'r Arglwydd

Gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn fuan wedi marwolaeth cyn-weinidog Ebeneser, y Parchg James (Jim) Clarke, cafwyd teyrnged gynnes iddo gan ysgrifennydd yr eglwys, Mr Irfon Morris. Gyda geiriau dethol, amlinellodd yrfa ei gyfaill, a chyflwyno portread cyfoethog o'i natur a'i gymeriad. Wedi i'r cadeirydd ddiolch iddo ac ategu'n gryno ei eiriau, gofynnwyd i'r gynulleidfa godi, yn arwydd o barch a chydymdeimlad â holl deulu a chyfeillion yr ymadawedig.

Amlinelliad o sefyllfa eglwys Ebeneser gafwyd nesaf, a hynny gan drysorydd yr eglwys, Mr Alwyn Roberts. Symudwyd ymlaen wedyn at yr ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf yn Moriah, Gwalchmai ar 5 Medi. Wedi i'r cofnodion hynny gael eu derbyn, cafwyd nad oedd unrhyw fater yn codi ohonynt ac aethpwyd ymlaen at faterion yr ysgrifennydd, Mr Edward Morus Jones. Wrth ei gyflwyno, llongyfarchodd y cadeirydd ef ar gyhoeddi ei hunangofiant dros yr haf ac anogodd pawb i'w ddarllen.



Dechreuodd yr ysgrifennydd gyda gair cryno am ei ddyled i'r Parchg James Clarke fu gydag ef, y Parchg J. Ronald Williams, a thrysorydd y cyfundeb, Mr Bryn Mortimer Roberts, yn rhoi trefn ar weithgareddau'r cyfundeb mewn cyfnod pur sigledig yn ei hanes. Aeth ymlaen wedi hynny i apelio am wirfoddolwr i fod yn is-gadeirydd y cyfundeb, ac i annog yr eglwysi i sicrhau fod ganddynt ymddiriedolwyr sy'n deall natur eu dyletswyddau.

### Materion yr Undeb

Cyflwynodd adroddiad o Gyngor Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 23 Hydref, cyn cyhoeddi fod cais am gymorth ariannol wedi dod oddi wrth un o eglwysi'r cyfundeb a dweud y bydd hwnnw'n cael ei ystyried maes o law. Gan nad oedd adroddiad o Gyfarfodydd Blynyddol yr Undeb wedi ei gyflwyno yn y cyfarfod ym mis Medi, cyflwynodd y cadeirydd ei atgofion o'r achlysur gan nodi yn arbennig dair sesiwn hynod gofiadwy a gafwyd ynghanol yr holl gyfraniadau ardderchog eraill.

Y gyntaf oedd yr un yng ngofal y Parchg J. Ronald Williams yng nghyfarfod y Gymdeithas Heddwch, yn sôn am y sefyllfaoedd yn Llain Gaza ac ar y Lan Orllewinol. Yn yr ail, cafwyd adroddiadau gobeithiol o eglwysi Pen-rhys (Y Rhondda), Ebeneser (Caerdydd), a'r Tabernacl, (Efailisaf), am eu gweithgarwch arloesol i amrywiol gyfeiriadau. Y drydedd sesiwn oedd yr anerchiad heriol a draddodwyd gan y Parchg Ddr Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd, yn cymharu ein sefyllfa ni â'r cwestiwn a drafodwyd yng Nghyngor Nicea yn 325, 'Beth sydd gennym ni i'w ddweud wrth y byd am Iesu Grist?' Beth, yn wir, sydd gennym ni, Annibynwyr, i ddweud wrth bobl am Iesu?

### Sul y Cyfundeb

Wedi i'r cynrychiolwyr benderfynu mai'r cadeirydd fyddai'n arwain dathliad Sul y Cyfundeb yn Rhosmeirch ym mis Mai 2025, ac wedi bwrw golwg dros ddyddiadau cyfarfodydd y Cyfundeb yn y flwyddyn newydd, diolchwyd i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau, a daeth y cyfarfod i ben gyda gweddi dros y cleifion a'r galarus, a phawb yn bendithio ei gilydd â geiriau cyfarwydd yr Apostol Paul.

**Geraint Tudur**

## Y Parchg Iorwerth Jones

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y Parchg Irfon Iorwerth Jones a fu yn weinidog i'r Arglwydd yn Bow Street a'r Borth 1958–64; Ebeneser, Rhosmeirch a Sardis, Bodffordd 1983–98. Bu hefyd am gyfnod yn athro ysgol. Cofiwn am ei ddiweddar briod Doreen a chydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu colled yn enwedig Aled a'i briod Helen, a'i wyresau Elin a Mared.

## Y Parchg Wynford Thomas

Trist oedd clywed am farwolaeth y Parchg Wynford Thomas. Bu ef yn weinidog i'r Arglwydd Iesu ym Methel Newydd, Garnant a Bryn Seion, Glanaman 1986–8; Ebeneser Castellnewydd Emlyn, Bryn Seion, Pontseli a Chapel Iwan 1988–2016; Capel Degwel, Llandudoch 1999–2016. Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

# Mair a Pilat:
## Myfyrdod Adfent (Rhan dau)

Sut mae hyn oll yn cael ei weithredu heddiw yn ein byd cymhleth ni? Mae Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol yn adrodd stori Shede a'i theulu yn Ne Swdan. Oherwydd y rhyfel, bu'n rhaid iddi ddianc o'i chartref gyda'i merch a'i nith heb ddim oll ond y dillad oedd amdanynt. Dim! A'i brodyr wedi eu lladd. Mentro'u bywydau ar ddianc. Gadael y teulu oedd yn dal yn fyw a'i heiddo – a'i gobaith? Nawr mae'n ceisio codi lloches fregus dros dro uwch eu pen i gadw gwaetha'r tywydd oddi arnynt. Ond mae'n anodd, meddai: 'Mae angen dillad glân arnom, a gwely a blanced.'

Yna daeth canlyniad etholiad yr Unol Daleithiau.



### Troi'r dŵr i'w melin

Dyma'n hatgoffa fod y pwerus o hyd yn gweithredu nid er mwyn eraill ond er eu mwyn eu hunain. Fel Pilat. Nid trawsnewid y byd mewn cyfiawnder, tosturi a heddwch yw eu nod ond gwarchod eu safle a'u diogelwch a'u statws eu hunain. Felly bydd rhyfeloedd a gwrthdaro ac anghyfiawnder yn parhau ta waeth am y gost i bobl 'bach' a diniwed y byd, fel Shede. Mewn byd lle bydd Donald Trump yn defnyddio pŵer diderfyn i'w amcanion hunanol a gormesol ef ei hun a'i gefnogwyr, y rhai bregus fydd yn dioddef: fel Mair wrth law Pilatau a Herodiaid y byd hwn.

Ond nid *symbolau* o'r tlawd a'r pwerus yn unig yw Mair a Philat! Maent yn rhan o stori'r iachawdwriaeth a gyffeswyd ar draws y canrifoedd. Maent yn y Credo: 'Cenhedlwyd gan yr Ysbryd Glân, ganwyd o Fair Forwyn.' Mae hi'n rhan o stori'r ymgnawdoliad: 'Bendigedig wyt ti ymhlith merched!'

### Y Groes



Ac mae Pilat yno hefyd. Mae'r groes wrth galon ein ffydd, wedi'i chynrychioli ym mhob adeilad Cristnogol, bron â bod, yn rhywle. 'Croeshoeliwyd dan Pontius Pilat.' Yn hanesyddol, y cymeriad allweddol wrth roi Iesu ar y groes. Fel cosb, er 'na allai Pilat weld dim yn ei erbyn.' 'Traddododd ef' – roedd yn rhy wan i wneud dim arall… Wedi'i yrru i weithredu'n greulon gan ymerodraeth rymus a thorf elyniaethus.

Eto 'Yng nghroes Crist rwy'n gorfoleddu, croes goruwch adfeilion byd.' Mae'n ymestyn mewn barn dros longddrylliadau amser a thros ymerodraeth Pilat a'i debyg, â'u holl rym a'r cyfan a safant drosto. Daeth yr ymerodraeth yn ddim yn y diwedd – er y bu ac y mae ac y bydd ymerodraethau eraill. Ond ar ei deyrnas ef, teyrnas Crist, medd y credo, 'ni bydd diwedd'. Dyma wneud yn bosibl addewid eithaf, tragwyddol, digyfnewid Duw o gariad tuag at bawb oll na all dim ein gwahanu oddi wrtho. A Pilat a'i traddododd ef, i fod, yn y cwbl ydoedd, 'er ein mwyn ni ac er ein hiachawdwriaeth'.

### Grym gostyngedig

Boed i bobl 'bach' grymus ein byd creulon a chythryblus ni, fel Mair a Shede, ddal i'n herio i weld yn Iesu frenhiniaeth nad yw wedi ei gwreiddio mewn grym creulon a didrugaredd ond mewn tosturi a hunanaberth ac ymgysegriad diarbed dros bobl fel Shede a Mair. Dyma'r deyrnas sy'n dal i 'wasgaru'r rhai balch eu calon, yn tynnu tywysogion oddi ar eu gorseddau ac yn dyrchafu'r distadl' (Magnificat Mair). Y Crist hwn, wedi 1700 mlynedd – a mwy, wrth gwrs – o gyffesu'r ffydd, y proffeswn ninnau hefyd, 'Credwn yn yr Arglwydd Iesu Grist ... ganwyd o Fair Forwyn ... croeshoeliwyd dan Pontius Pilat ... Ac ar ei deyrnas ef ni bydd diwedd'.

**Noel Davies**

*(yn seiliedig ar fyfyrdod gan yr awdur yng nghylchgrawn Eglwys Unedig Sgeti, Abertawe)*

# Gweddi'r Adfent
## TYRD I LAWR

***Tyrd i lawr, O Arglwydd, a gwna dy enw'n hysbys i'th elynion:***

tyrd i lawr, Arglwydd, a rho'r byd yn ei le;
tyrd i lawr a dangos dy hun i'r rhai sy'n dy wrthod;
tyrd i lawr a gwna i'r cenhedloedd grynu:
ond daethost i lawr, Arglwydd,
ac nid adnabuom di.

***Tyrd i lawr, O Arglwydd, er mwyn i ni gael ein hachub:***

tyrd i lawr, er mwyn i ni weld dy wyneb
yn llewyrchu arnom ac yn ein hadfer;
tyrd i lawr, ac yna ni thrown ni oddi wrthyt mwyach:
ond daethost i lawr, Arglwydd,
a chefnasom arnat.

***Tyrd eto, O Arglwydd, i'n hadfer ni:***

yn dy amser dy hun, tyrd eto
er mwyn galw dy bobl ynghyd
i gyflawni dy ewyllys dragwyddol
a dod a buddugoliaeth derfynol dy deyrnas sanctaidd i'r amlwg:
ond cydnabyddwn, Arglwydd,
fod angen i ni ein paratoi ein hunain
at y dydd mawr hwnnw.

***Felly, tyrd eto, Arglwydd:***

yn nhymor yr Adfent, tyrd i'n calonnau,
er mwyn i ni, fel tanwydd, gael ein tanio gan angerdd,
ac fel dŵr berwedig fyrlymu o lawenydd;
ac wrth i ni daer ddisgwyl dy ailddyfodiad,
na ad inni gefnu arnat,
ond gad i ni gael ein hadfer,
a'th gyffesu di yn Arglwydd,
Creawdwr, Achubydd
a'n Tad cariadlon a maddeugar.
Yn enw Iesu'r Meseia. **Amen**

**Gweddïo, 2002–3**



## Cantata'r Geni ar Gerdd Dant

Rhan o Gyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant, Aberystwyth a'r Fro 2025, oedd Cantata'r Geni. A chyn rhoi sylw i'r rhan arbennig honno o'r noson mae'n deg cydnabod bod Dawnswyr Seithennyn, Ensemble Telynau Gwasanaeth Cerdd Ceredigion, criw o Barti'r Greal a Linda Griffiths ac Aled Morgan wedi ffurfio un hanner i'r noson fyddai wedi bod yn gyngerdd ardderchog ynddo'i hun. Ond Cantata'r Geni sy'n mynnu sylw yma.

Mae'r geiriadur yn dweud wrtha i mai 'darn cymharol hir o naratif gerddorol i leisiau, i gyfeiliant offerynnau fel arfer, gyda chorws, unawdau a cherddorfa' yw cantata. Ac yn hynny o beth roedd Cantata'r Geni yn cydymffurfio'n daclus â'r traddodiad cerddorol gorllewinol. Lle'r oedd o'n gwyro o'r traddodiad hwnnw oedd fod Bethan Bryn wedi impio ein traddodiad unigryw ninnau iddo fo i greu rhywbeth arbennig iawn.

Bydd rhai o ddarllenwyr *Cenn@d* yn cofio anturiaethau eraill yng nghwmni Bethan drwy 'Dan y Wenallt' ac i Dryweryn yn y sioe 'Dŵr' gyda Jeremy Turner. Felly, er bod yr arfer o fentro yn gyfarwydd i edmygwyr Bethan, roedd gwrando ar Gantata Cerdd Dant yn brofiad nad oedd neb wedi ei gael o'r blaen.

Nid fi yw'r un i gynnig sylwebaeth ar lwyddiannau ac aflwyddiannau cerddorol y noson, dim ond dweud, i'r lleygwr hwn, ac yn ôl llawer o rai mwy gwybodus na fi, roedd o'n brofiad gwefreiddiol.

Un o'r rhesymau pam mae cerdd dant yn apelio ata i ydy'r lle blaenllaw a roddir i'r geiriau. Mae geiriau yn aml yn gallu cael eu sgubo o'r neilltu gan alaw dda – boed hi'n emyn neu'n gân bop; y gorau'n y byd ydy'r dôn, y peryg ydy i'r geiriau fynd i'w colli. Ond mae cerdd dant yn dechrau gyda'r geiriau ac yn meddwl sut orau i'w dyrchafu nhw. Yn yr achos hwn, geiriau cyfarwydd yr Efengylau, o, 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair ...' hyd at 'Iddo ef y byddo'r gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.'

Llwyddodd y côr oedd wedi ei gynnull o blith partïon ac unigolion amlycaf gogledd Ceredigion i gyfuno nifer o ffurfiau – o unawdau, deuawdau, pedwarawdau a llefaru i ganu corawl tawel, teimladwy ar y dechrau i glo grymus a gorfoleddus. Y cyfan i gyfeiliant pedair telyn, allweddell a ffliwt.

Mae adnodau'r Nadolig bron â mynd yn ystrydebau. Ond dyma'u clywed o'r newydd o'u gosod ar alawon oedd yn ennyn diddordeb a chyfalawon oedd yn llifoleuo ystyr yr oedd peryg iddo fod wedi mynd yn dywyll, neu ei golli yn y llygredd golau sy'n nodweddiadol o'n cyfnod ni.

Fe'm trawodd, o wrando, nad dyletswydd yr ifanc yn unig ydy herio ac estyn traddodiad. Mae'r ddyletswydd honno yn perthyn i bob un ohonom, beth bynnag fo'n hoed. Lle, a'r disgwyliad o'r ifanc, ydy bod yn rhwystredig, yn ddiamynedd a blin efo'r to hŷn. Mae hynny'n rhan bwysig o'r ddeinameg wrth symud pethau ymlaen. Ond mae ceidwadaeth yn gallu perthyn i'r ifanc yr un fath yn union ag y mae radicaliaeth yn gallu bod yn fwy effeithiol yn nwylo'r cenedlaethau hŷn.

Nid creu rhywbeth gwahanol er mwyn bod yn wahanol wnaeth Bethan, ond gweld ei bod hi am ddweud rhywbeth. Ac os nad ydy'r traddodiad fel ag y mae o'n caniatáu iddi wneud hynny, wel, aed ati i'w estyn o i'r eithaf nes ei fod yn canu yn ei dwylo hi. Yn profi ei dawn hi a gwytnwch y traddodiad.



Roedd Cantata'r Geni – y cantata cerdd dant cyntaf – yn cyflawni cymaint ar gymaint o lefelau. Llongyfarchiadau mawr i bawb oedd yn rhan o'r fenter!

*Rocet Arwel Jones*

Dyma gerdd Dafydd John Pritchard am y profiad o fod yn rhan o'r corws, cerdd yn arddull William Carlos Williams. Os ydych yn hoff o'r arddull gynnil hon, fe lansiodd Dafydd ei gyfrol ddiweddaraf, *deud llai* (Cyhoeddiadau Barddas) yn ddiweddar, ac mae llawer o gerddi yn yr arddull syml, uniongyrchol, hon yn y gyfrol honno.

**cantata'r geni**

fesul gair,
fesul adnod
a fesul golygfa;

fesul tant,
fesul nodyn,
fesul cainc
ac alaw;

fesul acen a
chroesacen
hefyd;

fesul llais,
fesul stori, fesul
pob datguddiad dwyfol.

fesul anecdot.

fesul stanc
mewn crud,
mewn croes.

*Dafydd John Pritchard*

Bydd recordiad o Gantata'r Geni i'w glywed ar Radio Cymru ddydd Sul, 29 Rhagfyr, am 12 o'r gloch

# Hawl i farw, hawl i fyw

Yng nghanol y pair gwleidyddol, bydd ambell gwestiwn yn cael ei gyflwyno gan gynnig pleidlais rydd i aelodau senedd-dai Prydain. Pwnc felly oedd y drafodaeth ddiweddar ynglŷn â chyfreithloni trefn i roi hawl i farw yng Nghymru a Lloegr. Amcan yr ysgrif hon yw ceisio ystyried yn gryno rai o'r ystyriaethau a gafwyd cyn y pleidleisio, ac yn dilyn hynny. Yn ystod y trafodaethau gwelwyd y senedd-dai ar eu gorau, gyda'r aelodau'n parchu safbwyntiau ei gilydd. Yn senedd San Steffan, roedd y mwyafrif o blaid parhau'r drafodaeth a threfnu ail ddarlleniad, tra gwelodd Senedd Cymru fwyafrif yn datgan fel arall.

Sylwn nad yw'r cyrff crefyddol wedi bod yn or-barod i ddatgan o blaid nac yn erbyn, er y dyfalwn mai greddf y rhan fwyaf o Gristnogion fyddai cadw at y safbwynt o wrthod cyfreithloni'r hawl i farw, ar hyn o bryd.

Gorsymleiddio'r drafodaeth fyddai dweud fod bywyd yn sanctaidd ac yn 'rhodd Duw' ar y naill ochr a bod gwrthod yr hawl i drefnu eich marwolaeth eich hun dan oruchwyliaeth feddygol yn herio hawliau'r unigolyn ar y llaw arall. Gellir codi adnodau beiblaidd i brofi neu herio pob safbwynt, mae'n siŵr. Ceir cyd-destunau cyfarwydd, yn arbennig yn yr Hen Destament (Salm 139) am ddialedd a chosb drwy farwolaeth fwriadol, a bydd enghreifftau yn y Testament Newydd (Actau 5) yn hawlio trafodaeth sensitif hefyd.

Cyflwynodd y Parchg Heini Jones y safbwynt hwn yn *Cenn@d* yn ddiweddar, gan wneud hynny mewn modd effeithiol a theg. Prin fod eraill ohonom yn gwbl gartrefol â'r dweud bod Duw yn dewis amser marwolaeth pob un ohonom, nac mai yw ewyllys Duw yw dioddefaint unrhyw un. Deallwn fod dros 7 miliwn o bobl wedi marw o Coronavirus yn y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n anodd credu bod unrhyw ddiwinydd yn barod i ddweud mai ewyllys Duw oedd hynny.

Pan fydd person yn marw ar faes y gad neu'n dilyn gweithred gan lofrudd neu fomiwr, ai ewyllys Duw yw hynny? Byddwn yn ystyried creulondeb neu drachwant cyd-ddyn cyn dweud mai Duw ewyllysiodd hyn. Ni fyddwn am negyddu hawl na gallu Duw am funud, ond gofyn ai cynllun Duw yw peri dioddefaint a marwolaeth person? Bydd ystyried hanes Ananias a Seffeira yn Actau 5 yn gofyn mwy na derbyn yn syml iddynt farw am fod Duw wedi bwriadu hynny.

Roedd penderfyniad Cyngor Undeb Bedyddwyr Cymru yn gofyn am arweiniad Duw i ni, aelodau'r eglwys yn ganolog, a hefyd i'r gwleidyddion oedd yn wynebu'r penderfyniad cyfreithiol. Dyfynnwyd rhai ohonynt yn dweud iddynt bleidleisio o blaid symud ymlaen i'r ail ddarlleniad, gan nodi y gallent fod yn pleidleisio yn erbyn yn y diwedd.

Bu'r drafodaeth a gafwyd yn San Steffan ar gynnig gan Kim Leadbeater AS yn bwyllog a pharchus. Fel yn y trafodaethau a fu ar gyfreithloni ysgariad ac erthyliad ar draws y degawdau, bu sawl cam i fireinio'r ddeddf fel y mae heddiw. Hawliau'r unigolyn yw'r ystyriaeth greiddiol – a chwilio am ffordd ymlaen drwy lwydni'r deddfu a sgil-effeithiau amgylchiadau pobl, yn arbennig o safbwynt hawliau merched. Mae'n debyg y ceir anghydweld ar fater erthylu am flynyddoedd i ddod yn yr Unol Daleithiau, a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r hawl i farw, beth bynnag fydd y canlyniad ym Mhrydain nawr.

Bydd gweinidogion wedi bod wrth erchwyn gwely nifer sy'n dioddef poenau enbyd. Yn ddi-os, mae angen gwella gofal lliniarol ym Mhrydain, ac yn y tymor byr o leiaf gobeithiwn y bydd y llywodraethau'n effro i'r angen hwn yn gymaint ag unrhyw ofyn meddygol arall. Yn bersonol, rwy'n eiddigeddus o unrhyw un sy'n edrych ar bynciau'r byd a gweld lluniau du a gwyn. Ofnaf mai ychydig yn unig yr wyf yn ei weld drwy'r llwydni, a gofynnaf am amser i glywed y llais a gweld y llun y bydd Duw am i mi sylwi arnynt.

*Denzil John*

# 'Awn i Fethlem'

Yn y calendr eglwysig, 1 Rhagfyr oedd Sul Cyntaf yr Adfent eleni – y 'Dyfodiad'. Dyma'r cyntaf o'r pedwar Sul sy'n arwain at y Nadolig, ac mae'r pedwar i fod i'n hatgoffa yn eu tro am bedwar dyfodiad Iesu Grist – ei eni'n faban ym Methlem; ei eni'n ysbrydol yng nghalon y Cristion; ei ddyfodiad i bawb yn awr marwolaeth; a'i ailddyfodiad buddugoliaethus yn niwedd y byd.

Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r arfer o gael torch fytholwyrdd adeg yr Adfent, a phedair cannwyll arni. Mae'r canhwyllau hynny'n cael eu goleuo yn eu tro o Sul i Sul, yn arwydd ein bod, adeg y Nadolig, yn cofio am eni'r Hwn a ddatganodd mai Ef yw Goleuni'r Byd.

Mae sôn am ganhwyllau yn ein harwain yn naturiol at y Ficer Prichard, a oedd yn byw yn ardal Llanymddyfri bedwar can mlynedd yn ôl. Lluniodd gannoedd o benillion bach syml i hyfforddi'r bobl yn hanfodion y ffydd Gristnogol – i fod yn rhyw fath o oleudy ysbrydol iddynt. Pan gasglwyd y penillion ynghyd yn gyfrol, rhoddwyd y teitl *Cannwyll y Cymry* arni, a dyna un o lyfrau mwyaf poblogaidd a dylanwadol y Gymraeg am flynyddoedd lawer wedyn.

Carol o waith y Ficer sy'n dal yn boblogaidd heddiw yw'r un sy'n dechrau:

> Awn i Fethlem bawb dan ganu,
> Neidio, dawnsio, a difyrru,
> I gael gweld ein Prynwr c'redig,
> Aned heddiw, ddydd Nadolig.

Gair o fyd y ddawns yw 'carol' yn wreiddiol, a chlywn yn y garol sionc hon sŵn dawnsio a gorfoleddu, sŵn dathlu pen-blwydd. A'r nodyn arall sy'n cael ei daro drwyddi draw yw un o ryfeddod, wrth feddwl am bwy oedd yr Un a aned ym Methlem – y Duw Hollalluog, Creawdwr nef a daear, yr Un sy'n bod erioed, ar yr un pryd yn faban bach diymadferth ar lin ei fam. Neu, fel y dywedodd y Ficer:

> Awn i Fethlem i gael gweled
> Mair, a Mab Duw ar ei harffed;
> Mair yn dala rhwng ei dwylo
> Y Mab sy'n cadw'r byd rhag cwympo!

*E. Wyn James*
*Caerdydd*

(*Addasiad o 'Munud i Feddwl', BBC Radio Cymru, dydd Llun, 2 Rhagfyr 2024*)

# Myfyrdodau ar gyfer Suliau’r Adfent



## Ein Brenin a’n Duw

I fyd di-gred, colledig, – i ddüwch
Y ddaear lygredig
Y daeth, i ganol ein dig,
A dod yn wynfydedig.
*Geraint Lloyd Owen*

- **Carol:** ‘Ti ydyw Iôr gogoniant’ (*Caneuon Ffydd*, 418)
- **Darlleniadau:** Salm 24; Efengyl Ioan, 18:28–38
- **Myfyrdod**

Fe gofiwch i’r Iesu gael ei draddodi i ddwylo Peilat gan yr awdurdodau Iddewig, a hynny wedi ei gyhuddo o greu terfysg a chynnwrf. Cyhuddwyd Iesu o fod yn fygythiad i Gesar Awgwstws, ac iddo’i wneud ei hun yn frenin. Ond ymateb Iesu i hyn oll oedd, “Nid yw fy nheyrnas i o’r byd hwn” (Ioan 18:36). Yna, pan ofynnodd Peilat: “Yr wyt ti yn frenin, ynteu?” (37), ateb Iesu oedd: “Ti sy’n dweud fy mod yn frenin ... Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i’r byd” (37). Felly, Iesu yw ein brenin ysbrydol, Brenin y Brenhinoedd ac Arglwydd yr Arglwyddi – yr hwn y bydd pob glin yn plygu ger ei fron, ac y bydd pob tafod yn cyffesu ei fod yn Geidwad ac yn Waredwr.

Credaf i’r Iesu gael ei eni i deyrnasu; cafodd ei anfon i’r byd yn frenin i bawb: “Er mwyn hyn y cefais fy ngeni … i dystiolaethu am y gwirionedd.” Daeth i dystio amdano’i hun, a does neb yn tanlinellu hyn inni yn fwy nag Ioan. Dywed ar ddechrau ei Efengyl, “Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair” (1:1). Cyfeiria at Iesu fel ‘Brenin yr Iddewon’, ‘Mab Dafydd’, ‘Mab Duw’!

Daeth i dystio drwy ei weithredoedd, “Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy na’r eiddo Ioan, oherwydd y gweithredoedd a roes y Tad i mi i’w cyflawni, yr union weithredoedd yr wyf yn eu gwneud, y rhain sy’n tystiolaethu amdanaf fi mai’r Tad sydd wedi fy anfon.” (Ioan 5:36) Pan gafodd Iesu ei fygwth gan yr Iddewon, gofynnodd, ‘“Yr wyf wedi dangos i chwi lawer o weithredoedd da trwy rym y Tad. O achos prun ohonynt yr ydych am fy llabyddio?” (Ioan 10:32)

Daeth i dystio hefyd drwy ei bregethu a’i addysgu: yr oedd rhywbeth arbennig iawn yn ei arddull o weithio ymysg pobl. Pan ddychwelodd y swyddogion a anfonwyd i’w arestio yng Ngŵyl y Pebyll yn waglaw, fe ddywedon nhw wrth eu meistri, “Ni lefarodd neb erioed fel hyn” (Ioan 7:46). Yna, wrth annog y dyrfa yn y synagog yng Nghapernaum ar y testun ‘Bara’r Bywyd’, fe ddywedodd, “Y mae’r geiriau yr wyf fi wedi eu llefaru wrthych yn ysbryd ac yn fywyd.” (Ioan 6:63)

Do, cafodd ei eni i deyrnasu, a hynny drwy wasanaethu ac nid llywodraethu, drwy achub a chymodi ac nid gorfodi. Pwrpas ei ddyfodiad, meddai, oedd: “i geisio ac i achub y colledig” (Luc 19:10). A’i fwriad wrth wneud hyn? “Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a’i gael yn ei holl gyflawnder” (Ioan 10:10). Ydy, mae’n frenin o ddewis i lawer, ac y mae’r rhai sydd yn credu ynddo eisoes ym meddu ar y bywyd tragwyddol.

Nawr ’te, ’dewch inni gofio hefyd fod Iesu yn teyrnasu heddiw. Cafodd ei eni’n frenin pan glywodd y byd waedd yr un ifanc yn codi o berfeddion rhyw stabl oer, anghynnes a digroeso ym Methlehem, a phan welodd rhyw fugeiliaid oleuni mawr a chlywed angylion yn canu. Cafodd ei gyhoeddi’n frenin pan gyflawnodd broffwydoliaeth Sechareia wrth farchogaeth i mewn i Jerwsalem, i fonllefau’r dyrfa, “Bendigedig yw’r un sy’n dod yn frenin yn enw’r Arglwydd; yn y nef, tangnefedd, a gogoniant yn y goruchaf” (Luc 19:38). Cafodd ei goroni’n frenin pan gododd o’r bedd yn fyw, a phan dreiglwyd y maen gan yr angel er mwyn i’r disgyblion weld lle roedd wedi bod yn gorwedd. Doedd dim posib cadw’r Iesu’n gaeth mewn bedd, canys ef yw brenin bywyd a marwolaeth, amser a thragwyddoldeb.

Teyrnasiad ysbrydol felly yw teyrnasiad Iesu; nid teyrnasiad bydol, tymhorol mohono. Iesu sydd wrth galon y cyfan. Ef yw ein brenin; ef sy’n teyrnasu yn ein calonnau. Dyna addewid gwerth chweil mewn cyfnod digon anodd yn ein profiad fel pobl Dduw ac eglwys Dduw. Ymhen amser, dyma’r Brenin fydd yn teyrnasu dros bawb a phopeth hyd byth: “Aeth brenhiniaeth y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a’i Grist ef, a bydd yn teyrnasu byth bythoedd.” (Datguddiad 11:15) Dyna gred y salmydd, y proffwyd, yr apostol a’r credadun erioed. Nid oes gobaith arall inni ond yn Iesu Grist. Cyfyngir popeth arall yn y byd o fewn ffiniau cyfyng iawn, ond y mae gan ein ffydd Gristnogol y gallu i agor drysau a ffenestri tragwyddol newydd yn hanes pawb ohonom.

‘“Ti sy’n dweud fy mod yn frenin,” atebodd Iesu. “Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i’r byd, i dystiolaethu i’r gwirionedd.” ’ (Ioan 18:37). “Halelwia! Oherwydd y mae’r Arglwydd ein Duw, yr Hollalluog, wedi dechrau teyrnasu. Llawenhawn a gorfoleddwn, a rhown iddo’r gogoniant” (Datguddiad 19:6).

Ydyn ni’n gallu credu hyn oherwydd onid dyma’r Crist sydd am gyfarfod â ni yr Adfent hwn?

- **Gweddi** (Anad., *Amser i Dduw*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts, t. 75)

Diolchwn, Arglwydd,
am i ti roi i’n bywyd orwelion tragwyddol.

Cod ni uwchlaw ffiniau amser
a chyfyngiadau materol,
i rannu yn dy fywyd anfeidrol,
a chyda holl gwmpeini’r nef,
sy’n trigo gyda thi
yng ngogoniant dy deyrnas nefol,
i’th foliannu a’th glodfori di dros byth,
y Duw tragwyddol. Amen.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 15 Rhagfyr, am 7:30yh – Adfent #3**
Rhaglen o garolau a pherfformiadau’r Nadolig wrth nodi Trydydd Sul yr Adfent, a chawn weld cynllun i leihau unigrwydd pobl hŷn ar Ynys Môn y Nadolig hwn.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 15 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Blant Annibynwyr Gorllewin Myrddin o gapel Blaen-y-coed, dan arweiniad Nicki Roderick

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 15 Rhagfyr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Ion Thomas, Caerdydd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Y DYN WNAETH DDWYN Y 'DOLIG?



Bydd y twrw yn Tesco a'r mayhem ym Morrisons yn dod i ben ar noswyl Nadolig. Mae Deddf Masnachu 2007 yn gorfodi pob siop sydd dros 280 medr sgwâr i gau ar ddydd Nadolig. Mae nifer o archfarchnadoedd tua deng gwaith yn fwy na hynny. Ond mae'r ddeddf yn caniatáu i siopau cornel i agor – rhag ofn boch chi wedi anghofio'r llaeth ar gyfer y saws bara neu frandi ar gyfer y pwdin!
Nid felly oedd hi ym 1650, pan oedd y gyfraith yn mynnu fod pob siop a marchnad ar agor – a hynny mewn cyfnod pan oedd llywodraeth weriniaethol o dan arweiniad yr Annibynnwr Oliver Cromwell yn rheoli. Roedd hi'n drosedd dathlu'r Nadolig, a byddai'r senedd, hyd yn oed, yn eistedd ar ddiwrnod yr ŵyl.

### Gwneud cam â Cromwell

Eto, efallai bod y cyhuddiad o ddileu'r Nadolig yn gwneud cam ag Oliver Cromwell – oedd o dras Cymreig, gyda llaw. Roedd Oliver yn or-ŵyr i Richard Williams, mab i chwaer Thomas Cromwell (i chi sy'n dilyn *Wolf Hall: The Mirror and the Light*) sef, Katherine a'i gŵr Morgan ap William, cyfreithiwr o Gymro. Newidiodd Richard ei gyfenw i Cromwell wrth fynd i wasanaethu ei ewythr oedd yn brif weinidog Harri'r VIII cyn i Thomas gael ei gyhuddo o fod yn fradwr a'i ddienyddio.

Roedd Llywodraeth Bresbyteraidd yr Alban, oedd bryd hynny'n wlad annibynnol, eisoes wedi gwahardd dathlu'r Nadolig 'nôl yn 1640 fel adwaith yn erbyn gormodiaeth yr ŵyl. Aeth y cyfan yn esgus i wledda, dawnsio, meddwi a mercheta am ddeuddeg niwrnod cyfan – yr enwog 'Twelve Days of Christmas'. Yn wir, prin y byddai cyfraith a threfn yn bodoli dros y Nadolig a'r Calan. Mewn ymdrech i reoli hynny, cafodd deddf ei phasio yn 1644, pan oedd Charles I yn dal i fod yn frenin ar orsedd Lloegr.

### Gwaharddiad llwyr

Cafodd gwaharddiad llwyr ei gyflwyno ym 1647 a'i gadarnhau yn 1652 – tair blynedd ar ôl dienyddio'r brenin, yn ystod yr unig adeg yn eu hanes pan oedd Cymru a Lloegr yn weriniaeth gydag Oliver Cromwell yn 'Arglwydd Warchodwr'. Dydd Sul oedd yr unig ŵyl Gristnogol – yr unig 'holy-day' – yng ngolwg y Piwritaniaid am nad yw'r Beibl yn gorchymyn cadw'r Nadolig fel dydd gŵyl. Gan fod yr un peth yn wir am y Pasg Cristnogol a'r Sulgwyn, roedd y ddeddf yn gwahardd gwasanaethau eglwysig a dathliadau ar y tair gŵyl, gyda dirwyon am beidio â chydymffurfio. Yn eu lle, fe gyflwynwyd gwyliau cyhoeddus seciwlar misol. Roedd Cromwell yn cytuno gyda'r mesurau hyn, er hyn roedd yn absennol o'r senedd pan basiwyd hwy.

### Nôl at y rhialtwch!

Ychydig flynyddoedd parodd y gwaharddiad. Er i Richard Cromwell ddilyn ei dad fel Arglwydd Warchodwr pan fu hwnnw farw ym 1658, fe ildiodd y swydd ar ôl naw mis, ac fe ddychwelodd Charles yr Ail i gymryd yr orsedd. Ystyriwyd 'The Merry Monarch' fel y dyn 'Wnaeth Achub y Nadolig' trwy ddileu'r cyfreithiau blaenorol, a chaniatáu i bobl fynd yn ôl i'w hen ffyrdd gydag arddeliad. O dipyn i beth fe gwtogwyd ar y deuddeg diwrnod erbyn Oes Fictoria, tan ei fod yn debycach i'r ŵyl heddiw. Ond er bod y siopau mawr ar gau, dylem gofio am y rhai sy'n gorfod gweithio ar ddydd Nadolig, mewn ysbytai a gwestai, yn ogystal â phlismyn a diffoddwyr tân – a ffermwyr llaeth, gan nad yw gwartheg yn cydnabod yr ŵyl!

**Alun Lenny**

(Addasiad o erthygl ym mhapur bro Caerfyrddin, *Cwlwm,* Rhagfyr 2024)

# 'Wyneb Newydd 2024':
## codi merched i arwain ac ysbrydoli

Rhaglen ddwy flynedd wedi ei chynllunio ar gyfer merched o gefndir lleyg ac ordeiniedig yw rhaglen 'Wyneb Newydd' Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (Council for World Mission, CWM). Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i archwilio arweinyddiaeth fenywaidd mewn ffordd ddofn ac ystyrlon. Yn ogystal â hyn, mae cyfle i archwilio rhai mannau lle gall merched gyfrannu mewn ffordd ffrwythlon ac effeithiol mewn gwahanol gefndiroedd diwylliannol. Wedi treulio



peth amser yn Nhaiwan ym mis Tachwedd 2023, daeth cynrychiolaeth o 13 o ferched i dderbyn croeso eglwysi sy'n perthyn i CWM â chynulleidfaoedd yng Nghymru, sef yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Ffederaliaeth Gynulleidfaol. Yma fe gawn argraffiadau dwy ferch sy'n gweinidogaethu yng Nghymru yn sgil yr ymweliad. Addasiad ydyw o'r hyn a rannwyd ganddynt ar *Munud i Feddwl*, Radio Cymru, yn ddiweddar.

### Tywydd diflas

Dwi'n hoffi meddwl nad ydw i'n un sy'n cwyno gormod! Dwi'n trio gwerthfawrogi pethau a chanolbwyntio ar y cadarnhaol. Mi fasech chi'n gallu deud fy mod i'n berson gwydr hanner llawn! Ond dwi wedi cael fy hun yn cwyno mwy na'r arfer

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Barn Annibynnol

## Drwy ein gweithredoedd ...

Maen nhw'n dweud bod newid meddyliau pobl yn beth nesa peth i amhosib y dyddiau hyn, a hynny yn bennaf am fod gan bob un ohonom lwyfan i fynegi ein barn yn fyd-eang a'n bod ni'n mynegi'r farn honno yn groch ac yn huawdl yn llawer rhy aml. Mae'n wir y dywediad: rhydd i bob un ei farn ac i bob barn ei llafar. Ond hefyd mae'n llawn mor wir yr hyn arferai ein mamau ni ddweud wrthym: os na fedrwch chi ddweud rhywbeth da/caredig/adeiladol, yna peidiwch â dweud unrhyw beth o gwbl. Wel, cweit.

Yn bendant fe ddaeth y cyfryngau cymdeithasol â lles i'n byd, ond ow! daeth â niwed mawr gydag ef hefyd. Dyna welwch chi gyda chymaint o ddatblygiadau a dyfeisiau technolegol neu wyddonol, y mae lles i bob peth a ddyfeisir ond fe wyddom hefyd, os oes lles, yna bydd rhywun yn rhywle yn camddefnyddio'r pethau gwych a ddyfeisir a'u defnyddio er drwg, a gwaeth. Rwy'n meddwl am yr orchest o hollti'r atom. Mi weithiodd hynny mas yn dda, yndo ...

### TimBL

Ond yn ôl at y cyfryngau cymdeithasol a'r we. Tim Berners-Lee ddyfeisiodd y we ar ddiwedd wythdegau'r ganrif ddiwethaf. Modd o gyfathrebu'n syml drwy gyfrifiadur ydoedd i ddechrau, gan ddefnyddio Hypertext Transfer Protocol (HTTP) i drosglwyddo gwybodaeth. Pan fu TimBL (fel y'i gelwir gan rai) yn fyfyriwr prifysgol mewn Ffiseg yn y saithdegau fe greodd gyfrifiadur allan o hen deledu, a dyna gychwyn ar gyfres o ddigwyddiadau a'n harweiniodd ni at y fan hon.



### Tafotrydd

A heddiw, mae gan bawb le i'w lais ar y llwyfan rhyngwladol – y we fyd-eang. Ac felly, os yw hyn yn wir, mae gennym ni gyd ein dyletswydd bob un i fod yn gyfrifol ar yr hyn a ddywedwn ni. Os yw mamau'n ffynhonnell doethinebau, wel beth am hon 'te: peidiwch roi dim ar y we na fyddech chi'n fodlon ei ddweud wrth rywun i'w hwyneb. Mae'n anhygoel nad yw pobl yn ystyried hynny pan fyddan nhw'n postio pethau carlamus ar y we, *keyboard warriors* yw'r enw amdanynt, pobl sy'n fodlon bod yn haerllug wrth deipio a dweud pethau



wrth bobl na fyddan nhw'n cwrdd â nhw achos tasen nhw *yn* digwydd cwrdd wyneb yn wyneb, mae'n debyg na fydden nhw'n meiddio bod yr un mor llac o dafotrydd. Ac ar ben hynny, mae'r hyn sy'n cael ei deipio'n ffri gennym ar y we yn aros yno ... am byth. Os yw rhywun yn anghydweld neu'n anghytuno ac yn cwmpo mas wyneb yn wyneb, wel mae modd cymodi yndoes? Caiff y geiriau a ddywedir fynd ar y gwynt a'u hanghofio. Anoddach gwneud os yw'r geiriau'n dal i sefyll ar y we yn dystiolaeth barhaol. Gofal piau hi felly gyda'r busnes cyfryngau cymdeithasol 'ma.

### Brygawthan

Ond 'nôl â ni at yr hyn ro'n i'n ei drafod ar y cychwyn, sef nad yw pobl yn newid eu barn yr un bripsyn gyda'r holl weiddi a rhefru di-baid sy'n digwydd dros y cyfryngau cymdeithasol. Dydy pregethu ar bobl ddim yn cael unrhyw effaith felly. *Guys*! *Guys*! *Guys*! Fel Cristnogion, does bosib ein bod ni wedi bod yn gwneud hyn oll yn anghywir ar hyd yr amser? Sut ydyn ni am ddysgu pobl am Iesu? Sut ydyn ni am ddweud wrth bobl amdano ac am yr holl a wnaeth ac am yr ôl ag yr ydyw? Nid drwy weiddi sbo, ond drwy ein gweithredoedd, a dangos sut mae Iesu wedi newid ein bywydau drwy fyw ein bywydau drwy'r newid hwnnw. Mae'r Beibl ei hun yn dweud hynny, mai drwy ein gweithredoedd y byddwn ni'n dangos ein ffydd. *Show don't tell*, yw'r cyngor felly. Sdim angen gweiddi. Calla dawo.

**Elinor Wyn Reynolds**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## 'Wyneb Newydd 2024' – *parhad*

yn ystod y pythefnos dwytha – a fy mhoen ydy'r tywydd! Mae hi wedi oeri'n rhy sydyn; mae hi'n rhy wlyb, a dwi wedi gorfod rhoi'r gwres ymlaen! Dwi wedi diflasu fy hun, a deud y gwir, efo'r holl gwyno. Fedrwn ni ddim newid y tywydd – ond mi fedrwn ni newid sut rydyn ni'n ymateb iddo fo. Fedrwn ni mo'i newid o, medden ni. Ac eto, mi fedrwn ni ddeud fod pobol yn newid hinsawdd y byd; mae gwyddonwyr yn gallu dangos hynny i ni. Ac mae yna gyfleon yn cael eu colli o hyd i fod yn ddewr yn ein gweithredu i arbed rhagor o gynhesu byd-eang. Tybiwn mai felly y bydd hi eto yn Azerbaijan ar hyn o bryd yng nghyfarfod COP 29.

### Deuddeg disgybl

Roeddwn i yn y Bala yn ddiweddar mewn cyfarfod ffarwél i griw o dros ddwsin o weinidogion benywaidd oedd yn dod o wledydd ar draws y byd. Roeddent wedi bod yn ymweld â Chymru yn ystod y tair wythnos diwethaf i weld y gwaith y mae capeli'r Annibynwyr a'r Presbyteriaid yn ei wneud ac i ddeall ein cyd-destun. Roedden nhw hefyd yn rhoi awgrymiadau i ni wrth symud ymlaen. Cawsom eu croesawu i eglwys Noddfa yng Nghaernarfon ac roedd yn wych cael sgwrsio a dysgu am eu gwaith a'u cyd-destun hwy yn eu heglwysi yn Zambia, Zimbabwe, Madagascar, y Caribî, Seland Newydd ac Ynysoedd y Môr Tawel. Roedd dwy yn dod o Kiribati, casgliad o ynysoedd yn y Môr Tawel. Eu neges nhw i ni oedd na fydd Kiribati yn bodoli o fewn llai na hanner canrif gan y bydd lefelau'r môr wedi codi a'r tir wedi ei golli i'r môr. Mae pobol Kiribati yn byw efo realiti newid hinsawdd bob diwrnod. Mae'n anodd i ni ddychmygu effaith mor drychinebus, ond rhaid deffro i'r sefyllfa a chydnabod fod beth sy'n digwydd mewn un rhan o'r byd yn effeithio ar rywun ar ochor arall y byd. Wrth i arweinwyr gwledydd y byd gyfarfod yn Azerbaijan yn ystod mis Tachwedd ac i ninnau barhau i ddiolch a gwerthfawrogi creadigaeth anhygoel Duw, bydd cyfle i gofio am effaith newid hinsawdd ar draws ein byd yn ein gwasanaethau, dwi'n siŵr. Ond mae angen mwy na chofio: rhaid gweithredu hefyd – a meddwl bob dydd: a ydw i'n byw mewn ffordd sy'n garedig i'r greadigaeth ac i'm cymdogion byd-eang, a'm chwiorydd a'm brodyr ledled daear?

**Mererid Mair, Caernarfon**

*(Bydd yr ail fyfyrdod yn ymddangos yr wythnos nesaf.)*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.


# Dilyn Llinyn

## Dr Abraham Rees, 1743–25

Yn ddiweddar darllenais eto *Cofiant y Parch. Lewis Rees 1710–1800), gan J. Roberts (Llanbrynmair), gyda chwanegiadau gan John Davies*, (E. Griffiths, Abertawe, 1852). Bu'r gwron hwn yn weinidog ar achos yr Annibynwyr yn Llanbrynmair a Mynydd-bach, Abertawe. Roedd yn efengylydd mentrus a sefydlodd nifer o achosion yn ystod ei weinidogaeth yn ne a gogledd Cymru. Yn y llyfryn fe gyfeirir at blant L. Rees gan ddweud:


> Oddeutu'r flwyddyn 1740, pan o gylch ei 30 oed, priododd â Miss Esther Penry, (yr oedd yn un o ddisgynyddion John Penri) merch i'r bonheddwr Abraham Penry, Maes-yr-onnen, Swydd Faesyfed ... Cawsant 6 o blant, sef Josiah, Abraham, Mari, Isaac, Jacob, ac Ebenezer ... Aeth Josiah yn forwr ac ni wybuwyd mwyach yn ei gylch. Claddwyd Ebenezer yn y Mynydd-bach, yn y flwyddyn 1791, yn 38 oed. Claddwyd Mrs. Rees yn yr un bedd a'i mab, Ebenezer, Medi 5ed, 1794. Claddwyd Mr Rees yn yr un bedd, Mawrth 21, 1800.

Ymhelaethir ar hanes ei fab Abraham, 'Ganwyd Abraham yn Llanbrynmair, yn y flwyddyn 1743. Yr oedd tuag un ar bymtheg mlwydd oed, pan symudodd ei rieni i'r Mynydd-bach; derbyniwyd ef yn aelod yn y lle hwn pan yn ieuanc. Buasai dan addysg ewythr iddo o offeiriad, er yn blentyn. Cafodd addysg athrofaol, a'i urddo i waith y weinidogaeth, yn Eglwys Bresbyteraidd, Southwark, Llundain.'



*Yn ôl y sôn Dr Abraham Rees oedd yr olaf o bregethwyr Anghydffurfiol Llundain a wisgai beriwig wrth bregethu*

Enynnodd hyn gywreinrwydd ynof ac felly euthum ati i dwrio ymhellach i hanes hynod Abraham Rees gan ddilyn y llinyn.




*Capel Old Jewry 1808 – 1846 yn Jewin Street, Llundain*

### Addysg a gyrfa

Fe gafodd A. Rees yrfa academaidd amrywiol a llewyrchus mewn ysgolion, a cholegau yn cynnwys ysgol Dr Jenkin Jenkins yn Llanfyllin. Ym 1759 aeth i academi Coward, (Coleg Anghydffurfwyr), Byng Place, Llundain gan ddod yn athro mewn mathemateg a diwinyddiaeth naturiol yno ym 1762. Ar 31 Ionawr 1775 cafodd DD gan brifysgol Caeredin. Yn ddiweddarach, 1786–96, bu'n athro Hebraeg a mathemateg yn y New College, Hackney. Ei swydd gyntaf fel gweinidog oedd pregethu yn bythefnosol i gynulleidfa annibynnol yn Clapham, Llundain, fel cynorthwyydd i Philip Furneaux. Ym mis Gorffennaf 1768 olynnodd Henyr Read fel bugail eglwys Bresbyteraidd St Thomas', Southwark. (Y mae eglwys o'r enw St Thomas' yn Southwark heddiw ond tybiaf nad hon oedd yr un y gwasanaethodd A. Rees ynddi gan mai Anglicanaidd ydyw.) Ym 1783 fe symudodd i fod yn fugail ar gynulleidfa yn Old Jewry, Llundain, hyd ei farwolaeth. Ym 1809 adeiladwyd capel newydd ganddynt yn Jewin Street ddim yn bell o leoliad presennol eglwys Bresbyteraidd Gymraeg Jewin (Crescent).

### Golygydd

Ond daeth A. Rees yn enwog yn Lloegr oherwydd ei gyhoeddiadau niferus ac un yn arbennig. Ym 1776 cafodd wahoddiad gan berchnogion y *Chambers' Encyclopedia* i arolygu diweddariad i'r cyhoeddiad sylweddol hwn. Fe gymerodd y gorchwyl hwnnw 9 mlynedd iddo ef a'i dîm i'w chwblhau ac fe'i cyhoeddwyd mewn pedair cyfrol ffolio. Oherwydd llwyddiant y gwyddoniadur penderfynodd y perchnogion ei gyhoeddi eto ond gyda llu o ychwanegiadau ac ymgymerodd A. Rees unwaith eto gyda'r gwaith aruthrol. Y tro hwn fe'i gelwid yn *The New Cyclopaedia*, neu'r *Universal Dictionary of the Arts and Sciences*. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o 45 ym 1802 a'r olaf ym 1820 ac fe'i hystyriwyd yn orchestwaith sylweddol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys 39 cyfrol o destun, 5 cyfrol o blatiau lluniau ac atlas. Gwerthid ef am £85 ac fe gostiodd £300,000 i gwmni Longmans ei gynhyrchu a'i argraffu. Yn y *Cyclopaedia* roedd oddeutu 39 miliwn o eiriau; tros 500 o erthyglau oedd yn cynnwys mwy na 10,000 o eiriau. Pan gwblhawyd y gwaith rhoddodd cwmni Longmans rodd o 300 gini i A. Rees.



CYCLOPÆDIA:
OR, AN
UNIVERSAL DICTIONARY
OF
ARTS and SCIENCES;
CONTAINING
The DEFINITIONS of the TERMS;
And ACCOUNTS of
The THINGS signify'd thereby,
In the several ARTS,
Both LIBERAL and MECHANICAL,
And the several SCIENCES,
HUMAN and DIVINE:
The Figures, Kinds, Properties, Productions, Preparations, and Uses, of Things NATURAL and ARTIFICIAL;
The Rise, Progress, and State of Things ECCLESIASTICAL, CIVIL, MILITARY, and COMMERCIAL:
With the several Systems, Sects, Opinions, &c. among Philosophers, Divines, Mathematicians, Physicians, Antiquaries, Criticks, &c.

*The Whole intended as a Course of Antient and Modern LEARNING.*

Compiled from the best Authors, Dictionaries, Journals, Memoirs, Transactions, Ephemerides, &c. in several Languages.

In TWO VOLUMES.

By E. CHAMBERS Gent.

*Floriferis ut apes in saltibus omnia libant,*
*Omnia nos*——LUCRET.

VOLUME the FIRST.

LONDON:
MDCCXXVIII.

Cyhoeddodd lyfrau eraill hefyd yn cynnwys *Practical Sermons* (1809–12) a *The Principles of the Protestant Dissenters Stated and Vindicated*. Roedd yn falch iawn o'i bedair cyfrol *Practical Sermons* a gyhoeddwyd rhwng 1812 a 1821. O ran diwinyddiaeth roedd yn Ariad ac felly yn gwrthod fod Iesu yn un o'r Drindod ers tragwyddoldeb.

### Teulu

Priododd Joanna Goldney (1740–1806) merch Edward Goldney a oedd yn awdur ac argraffydd ym Mryste. Cawsant dri mab a merch. Un o'i feibion oedd Nathaniel Penry Rees a bu farw ar 8 Gorffennaf 1802 ar fordaith o Bengal i St Helena.

Trwy gydol ei oes roedd ganddo ddiddordeb yn hynt a helynt Anghydffurfiaeth yng Nghymru. Gan ei fod yn llywydd y Presbyterian Board, yn un o ymddiriedolwyr cronfa Dr Williams, a noddai nifer o ysgolion yng Nghymru, yn weinyddwr y 'regium donum', bu'n abl i roddi llawer o gymorth i weinidogion anghenus yng Nghymru. Ymweliad olaf Dr A. Rees a Chymru oedd ym 1823 pryd y pregethodd yng nghapel annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin. Bu farw yn Finsbury, 9 Mehefin 1825, a chladdwyd ef yng nghladdfa Bunhill Fields ar y deunawfed o'r un mis.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*